Syniadau A.G.

Tymor yr Hydref 2002 *Pris £1.00*

Y BYD NATURIOL

Mrs Eluned Jones, Ysgol Gynradd Amlwch, Ynys Môn

Mae nifer o wahanol themâu yn yr ysgol gynradd yn talu sylw i'r amgylchfyd, ac yn rhoi cyfle i edrych ar ddysgeidiaeth grefyddol ynglŷn â'r berthynas rhwng pobl a'r byd o'u cwmpas. Erbyn hyn mae llawer o ysgolion yn rhan o gynlluniau ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchfyd – yr ysgolion eco neu ysgolion gwyrdd.
Gyda chyhoeddi'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol gwelir fod cysylltiadau agos rhwng yr agweddau a'r gwerthoedd a hybir â dysgeidiaeth grefyddol. Mae dysgu am y byd naturiol yn rhoi cyfle i ddatbylgu sgiliau megis rhai cyfathrebu, rhyngbersonol a mewnbersonol Mae datblygiadau ym myd technoleg yn sicrhau fod nifer o safleoedd addas am yr amgylchfyd ar gyfer plant ar gael ar y rhyngrwyd, a gall 'rhain gyfoethogi'r dysgu

Dyma rai syniadau ar gyfer eu datblygu gyda phlant Cyfnod Allweddol 1 a 2

1. Y Creu



Cyflwyno'r stori o Genesis (Mae nifer o fersiynau lliwgar a hawdd i'w deall ar gael)
Gweithgareddau:

- Cardiau gyda lluniau, i'r plant eu gosod yn y drefn gywir, a brawddegau i fatsio'r lluniau.
- Y plant i dynnu lluniau eu hunain yn rhoi trefn y digwyddiadau

Fersiynau gwahanol o stori'r Creu: Cyfle i'r plant glywed fersiynau o'r stori gan brif grefyddau'r byd, ac hefyd o ddiwyllianau erail e.e. *Dreamtime* yr Aborigini.
Gweithgareddau:

- Gwrando ar y straeon, neu chwilio mewn llyfrau a'u darllen eu hunain.
- Chwilio am bethau tebyg a gwahanol yn y fersiynau
- Dewis eu hoff fersiwn. Gwneud stribed cartwn o'r stori, rhoi eu rhesymau dros ddewis y stori arbennig yna.

2. Eu hamgylchfyd hwy

Cyfle iddynt ymchwilio a gwerthfawrogi eu hamgylchfyd, drwy nifer o weithgareddau ymarferol.
Gweithgareddau:

- Mynd allan ar iard yr ysgol, i'r traeth, i'r goedwig. Defnyddio eu synhwyrau, cofnodi yr hyn maent yn ei weld, glywed, arogli a chyffwrdd. Yna yn ôl yn y dosbarth, cael cyfle i drafod mewn amser cylch. Ysgrifennu gweddi i ddiolch i Dduw am ryfeddod a phrydferthwch byd natur o'u cwmpas.
- Gardd ysgol. Creu mannau delfrydol i dyfu planhigion fydd yn denu adar a chreaduriaid bach eraill. Cael cyfle i astudio rhai o'r blodau a'r creaduriaid yn ofalus. Meithrin parch tuag atynt, bod yn ofalus ohonynt a diogelu eu rhyddid.
- Anifeiliaid anwes: dysgu sut i ofalu amdanynt. Ymweliad gan aelod o gymdeithas R.S.P.C.A. (*mae pecynnau lliwgar a defnyddiol o weithgareddau ar gael gan y gymdeithas)*

- Mynd i warchodfa natur neu wylfan adar. Tynnu lluniau, defnyddio tap sain a chameráu digidol a fideo. Edrych ar y cyfan yn ôl yn yr ysgol, er mwyn cael cyfle i adlewyrchu a myfyrio ar waith rhai o'r bobl sy'n gysylltiedig â'r safleoedd.
- Sbwriel. Chwilio am ffyrdd i arbed ynni, ac i ail-ddefnyddio pethau megis papur. Gwneud posteri i hysbysebu beth sydd yn digwydd yn yr ysgol ac yn y gymuned i hybu hyn. Defnyddio pethau fel hen focsys cardbord, potiau iogwrt a deunyddiau eraill i wneud murlun o olygfa o fyd natur.
- Cyfleoedd i fyfyrio ar yr hyn sy'n digwydd i'r amgylchfyd a rhoi sylwadau ar eu byd delfrydol hwy. Defnyddio blodau byw lliwgar a blodau wedi gwywo fel symbyliad.

3.Bywyd gwyllt

Dod yn gyfarwydd ac enwau adar, blodau, creaduriaid a choed yn eu cynefin hwy neu yn wlad y gyffredinol.

Gweithgareddau:

- Casglu enwau a lluniau a gwneud llyfrau dosbarth drwy ddefnyddio'r cyfrifiadur.
- Taflenni gwaith i drafod pwysigrwydd edrych ar ôl yr anifeiliad a'r planhigion, ac i feddwl beth fyddai'n digwydd os na wneir hynny.
- Rheolau cefn gwlad neu lan y môr, er mwyn dioglelu prydferthwch byd Duw o'n cwmpas. Gwneud arwyddion lliwgar

Rydych chi yn wardeiniaid ar lan y môr, ac eisiau gwneud yn siwr fod yr ymwelwyr sy'n dod yno yn parchu'r traeth a'r bywyd gwyllt sy'n dibynnu arno. Lluniwch reolau arbennig i'w rhoi ar hysbysfwrdd. Yn ogystal â'r rheolau eu hunain, cofiwch roi rhesymau dros eu cadw.

- Ymchwilio i gyfeiriadau at blanhigion yn y Beibl, ac arwyddocâd rhai ohonynt. e.e lili'r maes.
- Y modd y mae anifeiliaid yn cael eu cynrychioli mewn cerfluniau mewn addoldai. Y cyfan yn dangos chwilfrydedd a pharch sydd wedi ei ddangos tuag at fyd natur drwy'r oesau.

4.Pobl Arbennig

Yn y gorffennol ac yn y presennol.

- Bywyd a gwaith Sant Ffransis o Assisi –hanes ei fywyd fel dyn ifanc a sut y newidiodd pan ddaeth i ddysgu am Dduw. Straeon amdano yn cyfarfod y blaidd, ac yn siarad gyda'r adar. Trafod ei deimladau yn ystod gwahanol gyfnodau yn ei fywyd.
- Melangell- Stori o Gymru am berson yn byw yn agos at fyd natur, ac yn barod i frwydro dros greaduriaid byw. Chwarae Rôl. Trafod eu hoff anifail. Pa anifail fyddent ofn ei gyfarfod? Pam?
- Chief Seattle – pennaeth un o lwythi'r Indiaid Cochion yn anfon neges yn 1855 i lywodaeth yr Unol Daleithiau, oedd eisiau prynu tiroedd y brodorion.

  "Sut fedrwch chi brynu'r awyr?" "Nid yw'r ddaear yn perthyn i ni. Ni sy'n perthyn i'r ddaear"

  Trafodwch: Beth fyddai eich neges chi i blant a phobl y trydydd mileniwm.

Pam?

Beth?

- Pobl yn gweithio gyda mudiadau yn ymwneud â'r amgylchfyd – meddwl am gwestiynau i'w gofyn i berson sy'n gweithio gyda'r Ymddirediolaeth Genedlaethol, Ymddirediolaeth Bywyd gwyllt, Parc Cenedlaethol neu Wylwyr y Glannau. Llunio portread o'r person.

Pryd?

Pwy?

Sut?

5. Moli Duw

Salmau, darlleniadau, gweddïau ac emynau addas. **Salm 136,Adnodau 1-9**

Mae'r salmydd yn diolch i Dduw am rai o'r pethau mae wedi ei greu. Beth am i chi ysgrifennu mwy o adnodau i'w cynnwys yn y salm? Meddyliwch am yr holl bethau eraill mae Duw wedi eu creu, sy'n gwneud y byd mor arbennig

- **Job, pennod 12, adnodau 7-10** 'Llaw yr Arglwydd a'u gwnaeth'

Fel mae'r adnodau yn awgrymu, mae ganddom lawer i'w ddysgu oddi wrth yr anifeiliaid a'r planhigion. Cymerwch amser i'w hastudio yn fanwl. Beth am i chi ysgrifennu gweddi fechan i ddiolch am waith Duw yn creu y pethau a welsoch ac a glywsoch?

- **Glas, Glas Blaned.** (Cyhoeddiadau'r Gair) Dysgu'r emyn, edrych arni fesul pennill

Gweithgareddau:

Dychmygwch eich bod yn cael mynd i fyny i'r gofod mewn roced, a'ch bod yn edrych i lawr ar y ddaear. Rydych yn cael camera arbennig, er mwyn eich galluogi i weld popeth sydd ar y daear yn fanwl. Gwnewch luniau o'r pethau hardd a welwch

Yn ogystal â'r pethau prydferth, rydych wedi dychryn gweld cymaint o lygredd a hagrwch. Anfonwch lythyr at bobl y byd, yn egluro sut ydych yn teimlo, ac yn dweud beth hoffech chi iddynt wneud i wella 'r sefyllfa.

Cyfansoddwch gerddoriaeth fydd yn cyfleu yr harddwch a'r hagrwch sydd yn y byd. Gyda'ch ffrindiau, defnyddiwch offerynnau a lleisiau i berfformio'r darn. Efallai y gellwch ddefnyddio rhaglen Fforio Cerdd ar y cyfrifiadur.

Mae'n bwysig ein bod ni yn goflau am y byd er mwyn y dyfodol. Ni yw'r stiwardiaid mae Duw wedi ei roi i warchod y cyfan. Dychmygwch sut le yr hoffech chi ei adael ar gyfer plant a phobl fydd yma ar eich hôl. Gwnewch gerdyn post fyddai'n dangos eich byd delfrydol chi

6. Dysgeidiaeth Iesu Grist

Fel Athro da, byddai Iesu yn dysgu'r bobl drwy ddefnyddio'r byd o'u cwmpas ar gyfer esbonio ei ddysgeidiaeth.

Mathew, pennod 6.

Edrychwch ar adar yr awyr; nid ydynt yn hau nac yn medi nac yn casglu i ysguboriau, ac eto y mae eich Tad nefol yn eu bwydo

Os yw Duw yn dilladu felly laswellt y maes, sydd yno heddiw ac yfory yn cael ei daflu i'r ffwrn, onid llawer mwy y dillada chwi?

Gwaith Llythrennedd: edrych ar iaith y Beibl

Ystyriwch lili'r maes, pa fodd y maent yn tyfu; nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu. Ond rwyf yn dweud wrthych, nid oedd gan Solomon yn ei holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain

Damhegion: Gwrando ar y damhegion neu chwilio am yr adnodau yn y Beibl.

Mathew 7: adnodau 15-20
Mathew 13: adnodau 1-9
Marc 4: adnodau 30-32

Defnyddiwch rai o'r adnodau fel rhan o bosteri a phamffledi a luniwyd i godi ymwybyddiaeth o ddysgeidiaeth Iesu, a'u harwyddocâd ar ein cyfer ni heddiw. Ystyriwch eu dylanwd ar weithredoedd Ei ddilynwyr sy'n gweithio mewn gwahanol rannau o'r byd. Y rhai sy'n gofalu am yr amgylchfyd a gwella ansawdd bywyd y bobl sy'n crefu am ddŵr glan ac sy'n dibynnu cymaint ar gynnyrch y ddaear.

7. Safbwyntiau'r prif grefyddau eraill

Beth sydd gan rai o'r prif grefyddau i ddweud wrthym am y byd naturiol?
e.e gweithgareddau yn cynnwys chwilio am wybodaeth am:



ADNODDAU MAGC *(Mudiad Addysg Gristnogol Cymru)*
Gwybodaeth fanwl a syniadau pellach i'w cael ym Mhecynnau Adnoddau MAGC
GELLIR LLUNGOPIO AR GYFER DEFNYDD EICH YSGOL.
Disgownt ychwanegol ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr.
Catalog Adnoddau a Phecynnau ynghyd â chopïau o 'Syniadau AG' ar gael oddiwrth:
Sali Roberts, MAGC,
Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH, SY20 9EX. (Tel/Ffacs: 01654-761697)

© MAGC 2002